
# Trychineb

## A fydd eich busnes yn goroesi?

Mae **80%** o fusnesau a effeithir gan drychineb yn cau o fewn 18 mis

*www.businesscontinuityuk.net*



Canllaw i

# Gynllunio Parhad Busnes

**Beth i'w wneud a ble i fynd i gael help**

## Cynllun Parhad Busnes

Rhagweld argyfyngau a allai effeithio ar eich busnes a chynllunio ar eu cyfer yw Parhad Busnes, i sicrhau bod y busnes yn gallu parhau i weithredu petai argyfwng.

Petai trychineb, boed yn un naturiol neu o law dyn, mae'n bwysig bod cymaint o fusnesau â phosibl yn parhau i weithredu a dod dros y trychineb yn gyflym. Bwriad y cyngor hwn yw helpu busnesau i wneud hynny.

## Pam y dylid paratoi Cynlluniau Parhad Busnes?

Petai argyfwng, mae cael cynllun parhad busnes yn eich galluogi i ddychwelyd i weithio'n arferol yn yr amser byrraf posibl.

Mae trychinebau fel y rhai a ganlyn yn gallu taro cyrff mawr neu fach:

- ✓ **Prinder tanwydd**
- ✓ **Tân**
- ✓ **Stormydd a llifogydd**
- ✓ **Bygythiad o fom/Terfysgaeth**
- ✓ **Lladrad**
- ✓ **Methiant cyfrifiadurol**
- ✓ **Llygru cynnyrch**
- ✓ **Methiant pŵer**
- ✓ **Cyhoeddusrwydd niweidiol**
- ✓ **Colli adeilad neu staff**
- ✓ **Lobïo gan garfannau pwyso**
- ✓ **Methiant technegol neu amgylcheddol**

... o ganlyniad, bydd eich busnes yn methu a bydd un neu ragor o'r canlynol yn digwydd

- ✓ **Colli incwm**
- ✓ **Colli enw da**
- ✓ **Colli cwsmeriaid/cyflenwyr allweddol**
- ✓ **Cosbau ariannol, rheoleiddiol a chyfreithiol**
- ✓ **Problemau adnoddau dynol**
- ✓ **Effaith ar bolisïau yswiriant**
- ✓ **Y busnes yn methu'n llwyr**

Nid yw'r cynlluniau'n rhai penodol ar gyfer argyfwng fel bygythiad o fom neu dân ond mae nhw'n rhai cyffredinol a gallen nhw gynnwys trefniadau i:

★ nodi aelodau staff allweddol
★ nodi sgiliau allweddol
★ gweithio gartref
★ symud o fewn yr adeilad
★ symud i leoliad arall
★ defnyddio adnoddau amgen
★ cyflawni'r ymrwymiadau sydd eisoes yn bod
★ darparu copïau, rhai papur ac electronig

## Cynhyrchu Cynllun Parhad Busnes

Dilynwch y canllaw 5 cam hwn i greu cynllun parhad busnes

**Cam Un** - **Dadansoddi'ch Busnes**

Dadansoddwch ba rannau o'ch busnes sy'n hanfodol er mwyn iddo weithredu. Ystyriwch:

- Staff
- Adeiladau
- Systemau TG
- Cyflenwyr
- Cwsmeriaid
- Graddfeydd Amser
- Partneriaethau

**Cam Dau** – **Asesu'r peryglon**

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi'ch hun

- Beth sy'n debygol o ddigwydd?
  Tân, methiant pwer, lladrad
- Sut y bydd yn effeithio ar fy musnes?
  Colli refeniw, cau adeiladau



**Cam Tri** - **Datblygu'ch strategaeth, ysgrifennu'r cynllun**

Ar ôl i chi ystyried eich asesiad risg a phenderfynu beth sy'n bwysig i'ch busnes oroesi, gallwch ysgrifennu'ch cynllun.

**Beth ydych chi'n ei gynnwys?**

- Beth fydd y cynllun yn ei gyflawni a sut y bydd yn gweithio
- Aelodau'ch tîm argyfwng a swyddogaeth pob aelod
- Rhestrau gwirio hanfodol
- Ymwybyddiaeth staff
- Trefniadau i hyfforddi a phrofi'ch staff
- Disgrifiad o'ch adeilad, gan gynnwys cynllun gyda lleoliad y cyfarpar ar gyfer argyfwng, h.y. diffoddyddion tân, diangfeydd tân

**Cam Pedwar** - **Datblygu'ch cynllun**

Pan fyddwch wedi datblygu'ch cynllun, dylech ei adolygu'n rheolaidd. Dylid ei newid pan fyddwch yn symud swyddfeydd, yn newid cyflenwyr, pan fydd staff allweddol yn ymddeol neu pan fyddwch yn ehangu'r busnes.

**Cam Pump** - **Ymarfer eich cynllun**

Hyfforddi'ch staff fel eu bod yn gwybod beth yw cynnwys eich cynllun ac yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Ymarfer eich cynllun gyda senario prawf a diwygio'ch cynllun os bydd yr ymarfer yn amlygu unrhyw wendid.

## Am ragor o wybodaeth a chyngor am Gynllunio Parhad Busnes, ewch i'r adrannau ar y gwefannau canlynol

### Paratoi ar gyfer argyfyngau

**Business Continuity Institute / www.thebci.org**

### Heddlu

**Am gyngor a chanllawiau ynglyn â Pharhad Busnes a'r Heddlu, cysylltwch â Chynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth Heddlu Gogledd Cymru. Gallwch anfon e-bost at ctsa@nthwales.pnn.police.uk**

### Tân

**Am gyngor a chanllawiau ynglyn â pheryglon tân a gofynion deddfwriaethol, cysylltwch â Swyddog Diogelwch lleol ar**
**Sir y Fflint a Wrecsam 0300 1233249**
**Conwy a Sir Ddinbych 01745 352777**
**Gwynedd ac Ynys Môn 01286 662999**

### Llifogydd

**Ffoniwch y Llinell Llifogydd 0345 988 1188 neu ewch i www.www.cyfoethnaturiol.cymru i weld a yw'ch busnes ar wastadedd llifogydd ac i gofrestru ar gyfer system uniongyrchol rhybuddio rhag llifogydd os ydyw (cewch alwad ffôn os bydd perygl o lifogydd)**

### Busnes

www.gov.uk/guidance/resilience-in-society-infrastructure-communities-and-businesses#busines-continuity

## Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCAR-CGC)

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy LL32 8DU
**Ffôn 01492 576534**
Gwefan: www.conwy.gov.uk

**Cyngor Gwynedd**
Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH
**Ffôn 01492 576534**
Gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru

**Cyngor Sir Ddinbych**
Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1YN
**Ffôn 01352 702124**
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

**Cyngor Sir y Fflint**
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Cyngor Sir y Fflint CH7 6NG
**Ffôn 01352 702124**
Gwefan: www.siryfflint.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
Stryt y Lambpit, Wrecsam
**Ffôn 01352 702124**
Gwefan: www.wrecsam.gov.uk

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Swyddfa'r Sir, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW
**Ffôn 01492 576534**
Gwefan: www.ynysmon.gov.uk